

Presenoldeb a Chyfranogiad mewn addysg ôl-16: Holiadur darparwr

Mae'r arolwg hwn yn ffurfio rhan o adolygiad thematig Estyn o bresenoldeb a chyfranogiad mewn addysg ôl-16. Mae'r adolygiad yn archwilio patrymau presenoldeb, rhesymau dros ddiffyg presenoldeb, trefniadau monitro, ac arfer effeithiol mewn gwella presenoldeb a chyfranogiad ar gyfer dysgwyr 16–19 amser llawn mewn dosbarthiadau chweched a gynhelir a cholegau addysg bellach ledled Cymru.

Bydd eich ymatebion i'r arolwg hwn a'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael eu defnyddio i ffocysu a theilwra trafodaethau yn ystod ein hymweliad o bell â'ch darparwr, gan sicrhau bod sgysiau yn gymesur ac yn berthnasol i'ch darpariaeth. Awgrymwn y dylai'r arolwg gael ei lenwi gan yr uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am bresenoldeb ôl-16.

Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#).

1. Pa fath o ddarparwr ydych chi?

- ☐ Chweched Dosbarth mewn ysgol
- ☐ Coleg addysg bellach

2. Enw'r darparwr:

3. Beth yw eich rôl chi?

4. Beth yw eich prif fesur presenoldeb ar gyfer eich dysgwyr yn y chweched dosbarth / dysgwyr 16-19 amser llawn?

- ☐ % Bob dydd
- ☐ % Hanner diwrnod / sesiwn
- ☐ % Gwers
- ☐ Arall

5. Pa mor hyderus ydych chi fod eich data presenoldeb:

	Hyderus iawn	Hyderus, at ei gilydd	Gweddol hyderus	Ddim yn hyderus iawn	Ddim yn hyderus o gwbl
Yn cael ei gofnodi'n gyson ar draws eich lleoliad?	☐	☐	☐	☐	☐
Yn gywir?	☐	☐	☐	☐	☐

6. A oes gennych chi ddiffiniadau clir o absenoldeb awdurdodedig ac absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer dysgwyr ôl-16?

- ☐ Oes – diffiniadau clir sy'n cael eu cymhwyso'n gyson
- ☐ Oes – diffiniadau clir, ond sy'n cael eu cymhwyso'n anghyson
- ☐ Diffiniadau gweddol glir
- ☐ Diffiniadau aneglur
- ☐ Dim diffiniadau ar waith

7. Os caiff y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ei ddefnyddio yn eich lleoliad, beth yw'r disgwyliad nodweddiadol o ran presenoldeb i ddysgwyr dderbyn taliad?

8. A oes gan eich lleoliad bolisi presenoldeb ar gyfer dysgwyr ôl-16?

- ☐ Oes, polisi presenoldeb ar ei ben ei hun
- ☐ Oes, mae wedi'i gynnwys mewn polisi ysgol gyfan / coleg ehangach
- ☐ Nac oes

9. Lanlwythwch gopi o'ch polisi / adran o'r polisi sy'n ymwneud â phresenoldeb

10. Pa mor effeithiol yw eich ymyriadau presenoldeb presennol, yn eich barn chi?

- ☐ Effeithiol iawn
- ☐ Gweddol effeithiol
- ☐ Ddim mor effeithiol
- ☐ Ddim yn effeithiol o gwbl
- ☐ Ddim yn siŵr

11. Pa mor hawdd neu anodd ydyw i feincnodi presenoldeb yn erbyn darparwyr eraill, yn eich barn chi?

- ☐ Hawdd iawn
- ☐ Gweddol hawdd
- ☐ Gweddol anodd
- ☐ Anodd iawn
- ☐ Ddim yn siŵr